Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk


Traeth y Gogledd, Dinbych-y-pysgod

# Sir Benfro i Sir Gâr

*"Rwyf wrth fy modd â chreithiau a storïau'r hanes sy'n gysylltiedig â'r rhan hon. Saethau canoloesol a thaflegrau cyrchu gwres ym Maenorbŷr; chwareli clogwyn môr yn Lydstep; mwyngloddio a gwaith haearn o gwmpas Saundersfoot, a glaniadau ymarfer yr Ail Ryfel Byd ym Mhentywyn – a'r cyfan yn rhan o'r daith gerdded fendigedig hon."*

**THERESA NOLAN, Swyddog Llwybr Arfordir Cymru.**

## O Faenorbŷr i Bentywyn

O glogwyni serth i dwneli rheilffordd treftadaeth, mwynhewch y tridiau hyn o antur ar hyd arfordir mawreddog Sir Benfro, cyn cyrraedd Sir Gâr yn y pen draw.

Mwynhewch y tridiau hyn o antur gan aros dros nos yn Ninbych-y-pysgod; fel arall, gallech aros ar y ffordd ger yr anheddiad ar ddiwedd pob dydd.

## Cyrraedd

Mae gwasanaethau trên uniongyrchol ar gael o Fanceinion, Casnewydd ac Abertawe, a gwasanaethau o'r rhan fwyaf o rannau o'r wlad yn cysylltu â'r rhain. Mae bysiau National Express yn mynd o Orsaf Fysiau Llundain Victoria yn uniongyrchol i Ddinbych-y-pysgod.

## Aros dros nôs

Mae Dinbych-y-pysgod yn harbwr a thref glan môr hyfryd. A hithau'n enwog am ei muriau trefol o'r 13eg ganrif, ei thraethau tywod euraid a'i thai lliwgar uwchben y lli, mae'r dref hon ymhlith y mannau mwyaf adnabyddus ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

## Llety

Mae llety at ddant pawb ar gael yma:

**visittenby.co.uk/where-to-stay/**

**visitpembrokeshire.com/cy-gb/lleoedd-i-aros**


## Bwyta Allan

Mae gan Ddinbych-y-pysgod ddewis amrywiol o gaffis, bwytai a chludfwyd::

**visittenby.co.uk/where-to-eat/**

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Sir Benfro i Sir Gâr

## Cyngor ar y Tir

Am fod Llwybr Arfordir Cymru'n dilyn y morlin yn agos, mae'n anochel y dewch chi ar draws erydiad, clogwyni serth a llwybrau creigiog. Cymerwch ofal, a chofiwch ddewis esgidiau a dillad sy'n briodol i'r amodau hyn ac sy'n addas i ragolygon y tywydd.

## Anhawster

Gall rhannau o'r darn hwn o Lwybr Arfordir Cymru fod yn arbennig o heriol gan ddringo a disgyn yn serth, ac mae gofyn lefel dda o ffitrwydd. Cydbwysir y rhannau hyn â milltiredd byrrach ac maent yn cynnwys darnau gwastad a mannau am seibiant.

## Cludiant Cyhoeddus

Daw manylion cludiant gyda phob taith gerdded, ond cofiwch fwrw golwg ar amseroedd yma cyn ichi gychwyn: **traveline.cymru** neu National Rail **nationalrail.co.uk** neu Trafnidiaeth Cymru **trctrenau.cymru/cy/hafan**


## Cludo Bagiau

Os ydych am aros mewn llety ar hyd y ffordd, gwnewch y siwrnai'n rhwyddach drwy ddefnyddio gwasanaeth cludo i drosglwyddo'ch bagiau i'ch cyrchfan nesaf..

**walescoastpath.gov.uk/plan-your-visit/planning-carrying-help/?lang=cy**

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Maenorbŷr – Dinbych-y-pysgod 7 milltir

***Dewch am dro ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro o Faenorbŷr, gyda'i chastell Normanaidd, heibio i glogwyni a baeau i'r hynafol Lydstep Haven ac ymlaen i draeth deheuol tref liwgar Dinbych-y-pysgod.***

## Dechrau

Ar ôl gadael y bws, dilynwch y ffordd i lawr drwy Faenorbŷr tuag at y môr. Cadwch i'r chwith wrth gyffyrdd i ymuno â Llwybr Arfordir Cymru wrth y traeth. Ar eich ffordd, beth am alw yng Nghastell Normanaidd trawiadol y pentref.

Os gallwch droi cefn ar draeth prydferth Maenorbŷr, trowch i'r chwith a dilyn Llwybr Arfordir Cymru i ddringo'n uchel o gwmpas cildraethau pert. Ym mhen pellaf Bae Maenorbŷr, mae'r llwybr yn mynd heibio i The Kings Quoit, sef siambr gladdu hynafol. Byddwch yn sylwi ar ei dau faen ochr bychan sy'n cynnal maen capan trawiadol gan greu beddrod siambr Neolithig bychan. Ymlaen â'r llwybr gan gofleidio ochr greigiog y clogwyn a chynnig golygfeydd anhygoel allan i'r môr.

I mewn tua'r tir â'r llwybr wedyn i osgoi Maes Tanio Brenhinol y Fyddin Brydeinig (safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn). Peidiwch â phoeni am hyn am fod y llwybr yn ddiogel ac yno ddigonedd o arwyddion. Ymuna unwaith eto â'r arfordir ychydig wedyn yn Skrinkle Haven, gyda'i draeth euraid godidog. Ychydig ymhellach ar hyd y llwybr mae grisiau serth i lawr i Ogofâu Lydstep, sy'n brydferth ond dim ond adeg distyll y gellir eu cyrraedd. Dilynwch glogwyni uchel o gwmpas Trwyn Lydstep cyn disgyn i Lydstep Haven. Os oes syched arnoch neu chwant bwyd, mae gan y pentref gwyliau yma siop fechan a chyfleusterau bwyd a diod.

Ewch ar hyd y traeth (adeg penllanw neu, os ydych yn cerdded gyda chŵn, bydd rhaid ichi fwrw ymlaen uwchben, drwy'r pentref gwyliau) ac i fyny grisiau yn y pen pellaf er mwyn dringo gan bwyll yn ôl i'r pennau clogwyn. Mae'r darn hwn o'r llwybr yn eithin ac yn flodau gwyllt i gyd, gan gynnig golygfeydd ysblennydd allan i'r môr ac yma y byddwch yn gweld Ynys Bŷr am y tro cyntaf. Abaty Bŷr ar yr ynys yw cartref y mynachod Sistersaidd sy'n gwneud siocled a phersawr enwog Ynys Bŷr. Gallwch ymweld â'r ynys heddychlon hon drwy daith ar gwch o Ddinbych-y-pysgod.


Gan fwrw ymlaen ar y llwybr, byddwch yn cyrraedd man lle cewch eich cyfeirio at un o ddwy ffordd, gan ddibynnu ar waith y Weinyddiaeth Amddiffyn. Tua'r mewndir â'r naill, a'r llall o gwmpas y pentir. Mae'r ddwy ffordd yn eich tywys yn ôl i draeth deheuol tref lachar a siriol Dinbych-y-pysgod. Dilynwch y traeth i'r pen draw, wedyn dyblu'n ôl i'r dde i ymuno â'r Rhodfa i mewn i'r dref ac yn ôl i'ch llety.

## Cludiant i fan cychwyn y daith

Ewch ar fws 349 – Hwlffordd – Dinbych-y-pysgod o Safle 1 Upper Park Road, Dinbych-y-pysgod hyd ychydig ar ôl y Castle Inn ym Maenorbŷr. Mae'n 20 munud o siwrnai, a'r gwasanaeth yn mynd bob awr. Cofiwch fwrw golwg ar amseroedd cyn gadael.

# Dinbych-y-pysgod – Amroth 7 milltir

*Darn garw ar hyd yr arfordir gyda choetir a chefn gwlad agored i bentref harbwr deniadol Saundersfoot. Wedyn darn anarferol drwy dwnelau tramffordd 200 mlwydd oed i Amroth.*




## Dechrau

Dechreuwch gerdded yn Harbwr Dinbych-y-pysgod ger y cytiau taith cwch. A'r môr y tu ôl ichi, trowch i fyny ac i'r dde ar hyd Bridge Street ac i'r dde ar hyd Crackwell Street lle cewch olygfa odidog o'r harbwr prysur. Mae pen uchaf Crackwell Street yn cwrdd â'r Stryd Fawr ac yno y dechreuwch ar Lwybr Arfordir Cymru.

Ewch ymlaen am ychydig ar hyd Norton, uwchben y môr, nes ichi gyrraedd troad ar y dde ar hyd y Croft. Dilynwch y ffordd hon nes iddi anelu am y dde ac ewch syth ymlaen pan fydd yn fforchio'n ddwy, gan ddilyn arwydd Llwybr Arfordir Cymru.

Dilynwch y llwybr a'i arwyddion ar ôl Waterwynch, sef darn dedwydd a diarffordd ar hyd llwybr coetir hudolus â llond lle o adar a blodau gwyllt, cyn i'r môr ddod i'r golwg unwaith eto. Er ei fod yn hardd iawn, gall y llwybr fod yn arw ac mae cryn dipyn o ddisgyn a dringo a grisiau wrth i'r llwybr ddisgyn i nifer o gildraethau gan gynnwys Waterwynch.

Ymlaen â chi tan ddiwedd y coetir a dechrau pentref croesawgar Saundersfoot. Yma mae modd troi i'r dde i fynd oamgylch y goedlan. Enw'r ffordd sy'n cwrdd â chi yw The Glen. Dilynwch hon i'r gyffordd a throwch i'r dde. Parhewch nes cyrraedd yr harbwr hyfryd.

Mae digonedd o leoedd i fwyta ac yfed yn Saundersfoot felly cymerwch ennyd i ymlacio a mwynhau'r lle hyfryd hwn, ac efallai golchi'ch traed yn y môr hyd yn oed!

Adeiladwyd harbwr Saundersfoot yn wreiddiol i gludo glo o lofeydd. Nid oes dim yn weddill o'r pyllau glo ond mae llwybr y dramffordd a adeiladwyd i ddod â'r glo i harbwr Saundersfoot yn ychwanegu agwedd ddiddorol iawn at y daith hon.

Ar ôl codi a disgyn y darn blaenorol, byddwch yn falch o glywed bod llwybr gwastad yn eich disgwyl. Ewch ymlaen i'r dwyrain ar hyd y Strand tuag at draeth Neuadd Coppet, gan gyrraedd drwy dwnnel byr.

Ym mhen draw traeth Neuadd Coppet, mae dau dwnnel mwyngloddio pellach wedi'u torri i ochr y clogwyn, ac yna llwybr ar hyd glan y môr. Dilynwch hwn i bentrefan bychan Wisemans Bridge, lle ymwelodd Winston Churchill ym 1943 tra bu'r cynghreiriaid yn ymarfer ar gyfer glaniadau D-Day.

Pan fydd y llwybr yn cyrraedd y ffordd, dilynwch ef i'r dde ac i'r dde eto lle ymunwch yn syth â Cliff Road. Yn y pen draw, mae'r ffordd yn troi'n llwybr a bydd yn disgyn i'r pyllau glan môr a'r traeth baner las yn Amroth.

Yn Amroth, mae dau dŷ tafarn, siop a rhywle i brynu cwdyn o sglodion cyn eich siwrnai yn ôl i'ch llety.


## Cludiant ar ddiwedd y daith

## Bws

Ewch ar fws 351 – Dinbych-y-pysgod – Pentywyn o'r Castell, Pendine Road yn Amroth. Mae rhwng 35 a 50 munud o siwrnai. Nid yw'r bysiau'n rheolaidd iawn ac maent yn gadael bob 2-3 awr felly cofiwch fwrw golwg ar yr amseroedd cyn gadael.

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Amroth – Pentywyn 5 milltir

***Taith gerdded fer, egnïol uwchben traethau euraid helaeth, sy'n pontio Sir Benfro a Sir Gâr, i gyrraedd yng nghartref y recordiau cyflymder tir!***

## Dechrau

Dechreuwch y dydd o'r safle bws yng Nghastell Amroth; gyda'r traeth tywod gwastad, hir o'ch blaenau, ewch i'r chwith. Dilynwch y ffordd heibio i dafarn y New Inn ac ymlaen ychydig ar hyd y ffordd nes ymuno â Llwybr Arfordir Cymru ar y dde sy'n eich tywys i drac glaswelltog pendant. Ar ôl grisiau hir, byddwch yn croesi pompren ar y ffin rhwng Sir Benfro a Sir Gâr.

Bydd y llwybr yn eich tywys yn raddol ond yn serth i fyny at Telphin Point ac yno, o edrych yn ôl, gallwch weld Dinbych-y-pysgod yn y pellter a thraeth Marros yn fflachio o'ch blaenau a phentir Sir Gâr.

Wrth reswm, ni chewch olygfeydd am ddim ac, er bod hwn yn ddarn byr o Lwybr Arfordir Cymru, mae'n mynnu ymdrech. Byddwch yn dechrau dringo darn serth igam-ogam i fyny i Fegwn Marchros a thrwy ddarn byr o goetir cysgodol cyn y daw Traeth Marchros i'r golwg eto. Os yw'r llanw'n isel, efallai y gwelwch olion sgwner, o'r enw Rover, a gafodd ei glanio'n fwriadol ym 1886 i osgoi ei suddo mewn tymestl grym 11.

Ewch ymlaen ar hyd y llwybr ac fe welwch leoedd lle gallwch fentro i lawr i'r traeth, os yw'r llanw'n caniatáu. Y traeth islaw Gilman Point yw un o'r lleoedd hyn ac yma gallwch gerdded dros y traeth i Bentywyn. Defnyddid y darn helaeth o dywod yma ar gyfer profi recordiau cyflymder tir. Os yw'r llanw'n dod i mewn, peidiwch â mentro ac ewch draw at Gilman Point ar y llwybr dynodedig. Bydd hwn yn mynd â chi at Bwynt Dolwent cyn ichi ddisgyn o'r diwedd i Bentywyn. Ar ôl eich ymdrech fawr, beth am wobrwyo'ch hun â hufen iâ blasus o un o'r caffis glan môr cyn dychwelyd ar y bws i Ddinbych-y-pysgod a'ch llety?

## Cludiant ar ddiwedd y daith

Ewch ar fws 351 – Dinbych-y-pysgod – Pentywyn drwy Saundersfoot, o Marsh Road gyferbyn â'r maes parcio. Mae'n awr o siwrnai. Nid yw'r bysiau'n rheolaidd iawn felly cofiwch fwrw golwg ar yr amseroedd cyn gadael.

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk

# Sir Benfro i Sir Gâr

## Atyniadau Ychwanegol tra byddwch yn yr ardal

### Castell Maenorbŷr

Castell Normanaidd trawiadol sydd ym Maenorbŷr, a chanddo safle ysblennydd uwchlaw'r traeth. Mae ganddo waith maen, capel, tŵr crwn a phorthdy mewn cyflwr da; nifer o risiau, tyrrau, ystafelloedd a bylchfuriau i'w harchwilio.

Ceir caffi ar y safle sy'n gwerthu cacennau lleol a brechdanau ffres. Cymerwch ennyd i eistedd yn y gerddi muriog heddychlon a ddyluniwyd gan yr artist botanegol Daphne Shackleton.

**visitpembrokeshire.com/attractions-events/manorbier-castle/**

### Taith ar gwch i Ynys Bŷr

Cofleidir Ynys Bŷr gan forlin mawreddog De Sir Benfro. Hon yw un o ynysoedd sanctaidd Prydain.

Mae mynachod Sistersaidd Ynys Bŷr yn parhau traddodiad gweddi a bywyd mynachaidd a ddechreuodd yno yn oes y Celtiaid, a phobl heddiw'n canfod bod yr ynys hardd ac anghysbell yn hafan o hedd a thawelwch.

Estynna'r mynachod a'r ynyswyr groeso cynnes i ymwelwyr dydd i rannu pleserau eu cartref ar yr ynys drwy gydol tymor yr haf. Mae fflyd o gychod yn mynd i'r ynys o Harbwr Dinbych-y-pysgod rhwng y Pasg a mis Hydref.

**caldeyislandwales.com**

### Tŷ'r Masnachwr Tuduraidd

Os ydych yn dwlu ar hanes, teithiwch yn ôl mewn amser i Ddinbych-y-pysgod y Tuduriaid a darganfod sut beth oedd byw mewn tŷ masnachwr Tuduraidd yn y 15fed ganrif. Camwch i fyd masnachwr llwyddiannus a'i deulu ym 1500, pan oedd y tŷ cain hwn o dri llawr newydd gael ei adeiladu. Darganfyddwch siop y masnachwr a'r gegin waith ar y llawr gwaelod. Trawsnewidiwyd neuadd y llawr cyntaf â chrogluniau lliwgar a chopïau o ddodrefn Tuduraidd.

**nationaltrust.org.uk/cy_gb/tr-masnachwr-tuduraidd**



Dinbych-y-pysgod



Saundersfoot



Pysgota ar arfordir Sir Benfro

### Gardd Coetir Colby

Mewn cwm heddychlon, mae gan yr ardd goetir gudd hon gefndir diwydiannol cyfoethog.

Daw pob tymor â gwahanol garped o liw: bwtsias y gog, saffrwm, a chennin Pedr, rhwymynnau o gamelias, rhododendron ac asaleas, ac yna flodau'r enfys a blodau gwyllt yr haf.

Mwynhewch lwybrau'r coetir cysgodol, y ddôl blodau gwyllt a'r ardd furiog liwgar yn yr haf, a lliwiau anhygoel coed acer, cwyros a gludwyd yn yr hydref.

Archwiliwch y ddôl gyda'i nant yn llifo, ei cherrig sarn, ei phompren a gweision y neidr a gloÿnnod byw.

Ceir yno hefyd ystafell de a siop.

**nationaltrust.org.uk/cy_gb/gardd-goedwig-colby**

### Chwaraeon Dŵr Dinbych-y-pysgod

Os ydych wedi'ch ysbrydoli ac yn teimlo'n egnïol, beth am archwilio morlin ysblennydd Sir Benfro o'r môr? Gallwch badlo mewn caiac o gwmpas y cildraethau cysgodol a'r ogofâu sy'n ymestyn i Monkstone Point. Beth am weld Sir Benfro o safbwynt gwahanol?

**tenbywatersports.co.uk/index.html**